**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD LLUN, 8 MAWRTH 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham (Chairperson), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Evans, A.Jarrett, A.Thomas, H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, C.L.Davies, a/ac J.Woodman-Ralph

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Cyng. M Harvey — Parthed: Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2021/2022 i 2023/2024 gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru ac ef yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abbey.

Parthed: Cyllideb Refeniw 2021/2022 gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 24 Chwefror 2021.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2021-22

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

## 5. DATBLYGIADAU CONSORTIWM EIN RHANBARTH AR WAITH

Cafodd yr Aelodau eglurhad nad oedd angen Asesiad Effaith Integredig gan fod yr eitem er gwybodaeth yng nghyfarfod heddiw. Yn ogystal, roedd penderfyniadau ynglŷn â'r trefniadau gweithio wedi'u gwneud mewn cyfarfodydd blaenorol lle byddai Asesiad Effaith Integredig wedi'i gynnal.

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 6. ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF 2020-2021

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad llafar y dylai rhoi'r penderfyniad ar waith fod wedi nodi i'w weithredu ar unwaith ac nid fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Penderfyniadau:**

1. Bod Rhaglen Gyfalaf 2020/2021 yn cael ei hargymell i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2. Cymeradwyo cyllideb 2020/2021 gwerth cyfanswm o £65.387m;

3. Nodi'r £39.1m o wariant ar 31 Ionawr 2021.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Diweddaru Rhaglen Gyfalaf y cyngor ar gyfer 2020/2021.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith.

## 7. ADRODDIAD DIWEDDARIAD A MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21

**Penderfyniadau**

1. Bod y symudiadau o ran arian wrth gefn fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu cymeradwyo;

2. Bod y trosglwyddiadau o ran arian wrth gefn sy'n fwy na £500,000 yn cael eu hargymell i'r cyngor i'w cymeradwyo.

3. Bod y materion gweithredol ac ariannol fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu nodi;

4. Bydd y cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chyfeiriadau, i gyflwyno gwasanaethau yn ystod yr adeg heriol hon;

5. Bod y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu nodi;

6. Bod y cyngor yn parhau i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ganlyniadau COVID-19.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Diweddaru Cyllideb y cyngor ar gyfer 2020/2021 a rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau ariannol sy'n deillio o COVID-19.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith.

## 8. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/2022 I 2023/2024

**Penderfyniadau:**

1. Argymell y Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/2022 i 2023/2024, fel a nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r cyngor i'w chymeradwyo;

2. Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei hadolygu a'i diweddaru dros y flwyddyn sydd i ddod.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn unol â'r Cyfansoddiad.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith.

## 9. CYLLIDEB REFENIW 2021/2022

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r Asesiad Effaith Integredig fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd;

1. Dirprwyo'r materion canlynol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol:-

    - Ffïoedd a thaliadau sy'n gymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022
    - Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

2. Bod sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb 2020/2021 yn cael ei hargymell i'r cyngor i gymeradwyo sefyllfa a threfniadau diwygiedig y gyllideb ar gyfer 2020/2021.

3. Penderfynwyd argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

    a) Y sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig ddiweddaraf ar gyfer 2020/2021 a'r trefniadau ar gyfer 2020/2021;
    b) Cyllideb Refeniw'r Cyngor 2021/2022. Ystyried effeithiau'r Asesiad Effaith Integredig a Throsedd ac Anhrefn wrth benderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2021/2022.
    c) Cymeradwyo gofynion y Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2021/2022, a chynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer cyflwyno’r cyllidebau.

ch) Cymeradwyo'r arbedion yn y gyllideb/blaengynllun ariannol a amlinellir yn Atodiad 4 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
d) Cyfarwyddo Cyfarwyddwyr Corfforaethol i weithredu'r arbedion a'r rhaglen wella ar gyfer yr Awdurdod.

4. Penderfynwyd argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

a) Dirprwyo ffïoedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Anweithredol perthnasol.
b) Ffïoedd a thaliadau sy'n gymwys yn 2021/2022

c) Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

5. Bod y swm cyfatebol ar gyfer Band D Treth y Cyngor 2021/2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o £1,660.02, yn cael ei argymell i'r cyngor i'w gymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i gyflawni ei ofyniad statudol i benderfynu ar gyllideb ar gyfer 2021/2022.

Sicrhau cefnogaeth i Flaengynllun Ariannol y cyngor a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer talu Ffïoedd a Thaliadau.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ac ymgysylltu helaeth rhwng 13 Ionawr 2021 a 12 Chwefror 2021 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 10. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021**

**Penderfynwyd:**

Bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Buddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a Dangosyddion Darbodus, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu hargymell i'r cyngor i'w cymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r Awdurdod i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Flynyddol, Strategaeth Gyfalaf a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (2017).

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**CADEIRYDD**